| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **12 Mehefin 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol<br>Nicola Stubbins, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Awdur(on) yr Adroddiad:** | **Tony Ward/Vicky Allen** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol: 2013/14** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'n ofynnol i bob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru i gynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n crynhoi eu barn ar effeithiolrwydd gwasanaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod a blaenoriaethau ar gyfer gwella.

1.2. Mae adroddiad blynyddol drafft ar gyfer 2013/14 wedi ei atodi fel Atodiad I. Bwriad yr adroddiad yw rhoi darlun gonest i'r cyhoedd o wasanaethau yn Sir Ddinbych ac i ddangos dealltwriaeth glir o'r cryfderau a'r heriau a wynebir.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1 I alluogi Aelodau i archwilio'r adroddiad drafft cyn iddo gael ei gyflwyno i AGGCC erbyn diwedd mis Mehefin 2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod yr Aelodau yn ystyried a yw'r:

- adroddiad yn rhoi disgrifiad clir o berfformiad yn 2013/14;
- adroddiad yn codi unrhyw faterion perfformiad/pryderon sydd angen eu harchwilio ymhellach.

## 4. Manylion am yr adrodd.

4.1 At ei gilydd, mae'r adroddiad yn dangos ein bod wedi parhau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol o ansawdd uchel yn ystod 2013/14, a'n bod wedi cyflawni perfformiad ardderchog mewn meysydd sy'n bwysig i'n cymunedau. Rydym hefyd wedi dechrau gwneud cynnydd go iawn gyda'n nod i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol mewn ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil y sefyllfa ariannol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

4.2 Yn amlwg, nid aeth popeth cystal ag yr oeddem wedi cynllunio, ac mae'r adroddiad yn nodi nifer o feysydd lle gellid gwneud gwelliannau o hyd. Fodd

bynnag, mae gennym gynlluniau yn eu lle i fynd i'r afael â'r materion hyn, fel yr amlygwyd yn yr adroddiad.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud yn benodol â'n cyfraniad at gyflawni ar y ddwy flaenoriaeth gorfforaethol ganlynol:

- Amddiffyn pobl ddiamddiffyn a sicrhau y gallant fyw mor annibynnol ag y bo modd; a
- Moderneiddio'r cyngor i sicrhau effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid yw cynhyrchu a chyhoeddi'r adroddiad ei hun yn costio unrhyw beth (ac eithrio amser swyddog), ac nid yw'n cael effaith ar wasanaethau eraill. Bydd y cynlluniau a chamau gweithredu yn y dyfodol a nodwyd o fewn yr adroddiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cyflawni o fewn y cyllidebau presennol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i rai o'r themâu a gwmpesir gan yr adroddiad e.e. cefnogi annibyniaeth a gwella lles, gael eu hystyried i fod yn y rhaglenni corfforaethol yn hytrach na chyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol yn unig. Ar gyfer y cyngor yn ei gyfanrwydd, bydd hyn yn golygu sicrhau bod ein holl wasanaethau, er enghraifft tai, priffyrdd, cynllunio, gwasanaethau amgylcheddol a hamdden, wedi'u cynllunio i wneud y gorau o annibyniaeth.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Nid yw'r adroddiad yn gofyn am Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2013/14, ac nid yw cyhoeddi'r adroddiad ei hun yn cael unrhyw effaith bosibl ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, o ran y cynlluniau yn y dyfodol a grybwyllwyd yn yr adroddiad, bydd angen AEC ar gyfer unrhyw benderfyniadau/newid a fydd yn cael effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. Bydd y rhain yn cael eu cynnal ar gyfer pob prosiect unigol yn ôl yr angen.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

8.1 Rydym wedi defnyddio adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr am ein gwasanaethau fel rhan o'n system sicrhau ansawdd sy'n bodoli eisoes.

8.2 Bydd yr adroddiad drafft yn cael ei ddosbarthu i bartneriaid (e.e. iechyd, 3ydd sector) ar gyfer sylwadau, a hefyd i gydweithwyr yn Sir y Fflint fel rhan o drefniant adolygu gan gymheiriaid lle rydym wedi cytuno i weithredu fel "cyfaill beirniadol" mewn perthynas ag adolygu adroddiadau drafft ein gilydd. Mae'r adroddiad drafft wedi ei anfon at ein Rheolwr Ardal AGGCC am adborth

anffurfiol ynghylch a yw'r cynnwys yn debygol o gwrdd â gofynion yr adroddiad blynyddol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Mae'n rhaid i oblygiadau cost unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg yn yr adroddiad gael eu hystyried o fewn cyd-destun sefyllfa gyllidebol ehangach y cyngor.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae cofrestr risg manwl ar gyfer Gwasanaeth Oedolion a Busnes ac ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Gan fod hwn yn adroddiad am y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Ddinbych, mae unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r materion a gwmpesir gan yr adroddiad hwn (a chamau gweithredu i'w lliniaru a'u rheoli) yn cael eu crynhoi yn y cofrestri risg gwasanaeth.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Canllawiau Statudol ar Swyddogaeth ac Atebolrwydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970.

11.2 Erthygl 6.3.4(b) yn nodi pwerau archwilio mewn perthynas a monitro perfformiad ac amcanion polisi.